PAPURAU BUSNES

Rhan I - Adran D

Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 14 Gorffennaf 2000

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Jenny Randerson (Canol Caerdydd); A yw wedi ystyried yr angen i'r Cynulliad gyllido'n uniongyrchol Sefydliadau Eirioli ar gyfer yr anabl, a ariennir gan yr Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd. (WAQ6515)

Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

Alun Cairns (Gorllewin De Cymru); A wnaiff ddatganiad ynghylch y cynlluniau i gwblhau atgyweirio Eglwys Priordy Ewenni. (WAQ6516)

Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Amaethyddiaeth

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw ddatblygiadau pellach o ran gweithredu'r Hawl i Grwydro yng Nghymru. (WAQ6517)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i chydweithwyr yn San Steffan, am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i oblygiadau i amaethyddiaeth Cymru a datblygu gwledig. (WAQ6518)

Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros yr Amgylchedd

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am gynigion sydd ganddi i roi rheoliadau ar waith, mewn perthynas ag adeiladu ffermydd gwynt yng Nghymru. (WAQ6519)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw fesurau diogelwch ffordd newydd sy'n cael eu cynnig ar gyfer Brycheiniog a Sir Faesyfed. (WAQ6520)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw fesurau diogelwch

ffordd newydd sy'n cael eu cynnig ar gyfer Ceredigion. (WAQ6521)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi ag aelodau'r Trysorlys, neu unrhyw un o'i chydweithwyr yn San Steffan, ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i oblygiadau ar yr amgylchedd, cynllunio a thrafnidiaeth yng Nghymru. (WAQ6522)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw ddatblygiadau pellach o ran Ffordd Osgoi Talgarth. (WAQ6523)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw fesurau diogelwch ffordd newydd sy'n cael eu cynnig ar gyfer Sir Benfro. (WAQ6524)

Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am effaith y Dreth Gyfleustodau ar Hyder. (WAQ6525)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw gynlluniau sydd ganddo i ddenu swyddi i Abertawe. (WAQ6526)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw gynlluniau sydd ganddo i ddenu mwy o ganolfannau galw i Gymru ar ôl i ganolfan First Line Mobile gau yn ddiweddar. (WAQ6527)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw ddatblygiadau pellach o ran darparu grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol i BAE Systems ym Mrychdyn. (WAQ6528)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw enghreifftiau lle bo cyngor y WIDAB wedi'i anwybyddu o ran BAE Systems ym Mrychdyn. (WAQ6529)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddo ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i gydweithwyr yn San Steffan, am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i oblygiadau i ddatblygu economaidd yng Nghymru. (WAQ6530)

Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i chydweithwyr yn San Steffan, am yr

Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i oblygiadau i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. (WAQ6531)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all wneud datganiad ynghylch unrhyw broblemau o ran recriwtio a chadw staff o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. (WAQ6532)

Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y 3 mis diwethaf i wella ansawdd ystadegau iechyd. (WAQ6540)

Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg a Phlant

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all restru yr holl ysgolion cynradd sydd wedi'u cau ledled Cymru ers mis Mai 1997, gan gynnwys nifer y disgyblion a oedd yn mynychu'r ysgolion hynny adeg eu cau. (WAQ6533)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i chydweithwyr yn San Steffan, am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i oblygiadau i addysg a phlant. (WAQ6534)

Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all wneud datganiad ynghylch unrhyw gynlluniau sydd ganddo i adolygu'r fformwla gyllido ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. (WAQ6535)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all wneud datganiad ynghylch unrhyw gynlluniau sydd ganddo i gyflwyno ardreth fusnes atodol yng Nghymru. (WAQ6536)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa wrthwynebiadau y mae wedi'u derbyn ynghylch cloriannu'r ardreth fusnes eleni, ac a wnaiff restru'r gwrthwynebiadau hynny. (WAQ6537)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddo ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i gydweithwyr yn San Steffan, am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i oblygiadau i lywodraeth leol a thai yng Nghymru. (WAQ6538)

Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A all sôn am unrhyw drafodaethau a fu

rhyngddo ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i gydweithwyr yn San Steffan, am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i oblygiadau i addysg a hyfforddiant yng Nghymru. (WAQ6539)